GWNEWCH BOB TAITH YN UN DDA.
DILYNWCH Y COD TEITHIO.
SGRIPTIAU DRAMA CYFNOD ALLWEDDOL 2

Cyflwyniad i Athrawon

Mae hawl gan blant a phobl ifanc i deithio'n ddiogel. Mae hawl hefyd gan y rhai sy'n teithio gyda hwy neu wrth eu hymyl i deithio'n ddiogel. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn ymddwyn yn dda wrth deithio'n ôl a blaen i'r ysgol neu'r coleg, er bod ymddygiad gwael ac aflonyddgar yn gallu bod yn broblem. Mae hyn yn fygythiad gwirioneddol i ddiogelwch a gall y canlyniadau fod yn drasig.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n benderfynol o gefnogi awdurdodau lleol, gweithredwyr, gyrwyr ac ysgolion sy'n gorfod delio ag ymddygiad gwael ac aflonyddgar. Dyna pam mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyflwyno'r ***Cod Teithio.*** Bwriad y Cod Teithio yw gwella diogelwch ar gludiant ysgol trwy fynd i'r afael ag ymddygiad annerbyniol. Mae'r Cod Teithio'n hyrwyddo teithio diogel i bob dysgwr, trwy osod y safonau ymddygiad sydd eu hangen. Roedd plant a phobl ifanc yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r Cod Teithio a chynhaliwyd gweithdai ledled Cymru i gasglu eu syniadau, eu mewnbwn a'u hadborth.

Mae cosbau yn rhan o'r Cod Teithio. Os na ddilynir y Cod Teithio, gall awdurdodau lleol, ysgolion neu sefydliadau addysg eraill gymryd camau yn erbyn plant a phobl ifanc. Gallai hyn gynnwys colli'r hawl i gael cludiant i'r ysgol am gyfnod a'u gwahardd o'r ysgol yn y pen draw.

Fel ymarferydd gallwch chwarae rôl bwysig, gan dynnu sylw plant a phobl ifanc at eu hawliau, ymddygiad derbyniol a chanlyniadau ymddygiad annerbyniol. Mae'r Cynulliad wedi mabwysiadu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plentyn (CCUHP). O ganlyniad, wrth addysgu am hawliau, mae angen adlewyrchu bod hawliau'n gyffredinol a diymwad ac nad ydynt yn gysylltiedig ag, nac yn dibynnu ar ymddwyn mewn ffordd arbennig. Mae hefyd yn bwysig nodi pan ydych yn derbyn hawl i'ch hun eich bod hefyd yn ei dderbyn i eraill ac na ddylech ymddwyn mewn ffordd sy'n cyfyngu ar fwynhad eraill o'u hawliau.

Mae gwybodaeth ar **http://wales.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/?skip=1&lang=cy**
a hefyd ar **http://www.ccuhpgwneudpethauniawn.co.uk**

Bwriad y cynllun gwers hwn yw eich helpu i godi ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth plant a phobl ifanc o'r Cod Teithio. Diolch am eich cefnogaeth gyda'r gwaith pwysig hwn.

Am fwy o wybodaeth neu i gyfeirio cydweithwyr at y Cod, ewch i **http://www.codteithio.org**

SGRIPTIAU DRAMA CYFNOD ALLWEDDOL 2

Am y sgriptiau drama

Mae tair sgript drama i ddysgwyr rhwng naw ac un ar ddeg:

1. **Y Tair Cwningen** (yn addas i grwpiau bach, recordiad sain)
2. **Eira Wen a'r Saith Ddylech-Chi-Ddim** (yn addas i ddosbarthiadau mawr gyda rhannau llais a rhannau eraill.)
3. **Hugan Fach Goch** (yn addas i grwpiau bach, recordiad sain)

Dylid defnyddio'r sgriptiau drama ar y cyd â'r Cod Ymddygiad wrth Deithio ar gyfer Cymru Gyfan. Gellid eu defnyddio fel rhan o gynllun dysgu gan fanteisio ar Gynllun Gwers Cyfnod Allweddol 2 sydd ar gael ar y wefan hon:
http://www.codteithio.org/teachers.html.

Gallai'r sgriptiau hefyd gyfrannu at godi ymwybyddiaeth o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plentyn (CCUHP), yn arbennig Erthyglau 2, 3, 6, 13, 28, 29 a 42. Gellir cael adnoddau i helpu i addysgu'r CCUHP ar:
http://www.ccuhpgwneudpethauniawn.co.uk

Mae pob sgript yn:

- Cynnwys elfen o hiwmor i helpu i wneud y dysgu'n fwy cofiadwy
- Rhoi cyfleoedd ar gyfer cyflwyniadau byrfyfyrio pellach
- Nid oes angen llawer o adnoddau fel offer, dillad a set
- Gellid eu defnyddio fel sail i berfformiad mewn gwasanaeth
- Gellid eu haddasu ar gyfer grwpiau cymysg neu grwpiau un rhyw yn unig. Er enghraifft gallai Hugan Fach Goch fod yn fachgen mewn hwdi.
- Rhowch ddigon o gyfleoedd i gynnal trafodaeth a gwneud gweithgareddau dilynol.

Sgriptiau'r Dramâu

Y Tair Cwningen

Mae tair cwningen mewn cwt ond nid yw'r bachgen ifanc sy'n berchen arnynt yn gofalu'n iawn amdanynt. Mae gan bob cwningen bersonoliaeth wahanol ond yn eu ffordd eu hunain maen nhw'n gofalu am ei gilydd. Mae'r ddrama'n digwydd o bersbectif y cwningod, mewn un olygfa, ac yn eu 'geiriau eu hunain'. Yn y diwedd mae'r bachgen ifanc yn cael ei orfodi gan ei fam i'w bwydo'n briodol a rhoi dŵr iddynt. Mae'r ddrama'n ffordd ddefnyddiol o gyflwyno cysyniadau hawliau a phwysigrwydd parchu hawliau eraill.

- Beth yw hawliau'r cwningod?
- Sut mae'r cwningod yn gofalu am ei gilydd?
- Oes ganddynt hawliau heblaw am fwyd ffres a dŵr glân?
- Beth yw ystyr parchu hawliau eraill?
- Pa gyfrifoldeb sydd gan y perchennog ifanc tuag at y cwningod?
- Ydi hi'n iawn fod ei fam yn dweud wrtho am ofalu am y cwningod?

Eira Wen a'r Saith Ddylech-Chi-Ddim

Goruchwylwraig croesfan mewn ysgol gynradd yw Mrs Wen, neu Eira Wen fel y mae'n cael ei galw gan y plant. Mae ganddi allu arbennig i weld popeth sy'n digwydd wrth i'r plant deithio i'r ysgol. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn dda iawn ond mae wedi rhoi enwau arbennig ar saith o blant oherwydd y pethau maen nhw'n eu gwneud ar eu ffordd i'r ysgol. Mae Mrs Wen yn adrodd y stori yn ogystal â bod yn gymeriad ynddi. Mae nifer o olygfeydd byr yn y ddrama, gyda phob un yn darlunio ymddygiad amhriodol penodol sy'n cael sylw yn y Cod Ymddygiad wrth Deithio ar gyfer Cymru Gyfan.

SGRIPTIAU DRAMA CYFNOD ALLWEDDOL 2

Gellir defnyddio'r ddrama'n uniongyrchol i gyflwyno'r Cod Teithio.

- Ystyriwch bob golygfa'n fanwl. Beth sy'n digwydd sy'n torri'r Cod Teithio?
- Pa gymeriadau sy'n ymddwyn mewn ffordd dderbyniol?
- Beth ddylai ddigwydd i bob un o'r cymeriadau yn y golygfeydd?

Hugan Fach Goch

Mae Hugan Fach Goch yn gorfod teithio trwy'r goedwig i gyrraedd Ysgol y Goedwig. Ar y ffordd yno mae'r Blaidd Mawr Cas yn pigo arni, mae'n cyfarfod y Tri Mochyn Bach sydd wedi mentro yn eu ffyrdd eu hunain i groesi'r Afon Arswydus, a'r Bachgen Bach Toes sy'n camymddwyn ar y Fferi Ffawd. Gyda'r Torrwr Coed yn cadw golwg arni, mae Hugan Fach Goch yn cyrraedd yr ysgol yn ddiogel.

- Ystyriwch bob golygfa'n fanwl. Beth sy'n digwydd sy'n torri'r Cod Teithio?
- Pa gymeriadau sy'n ymddwyn mewn ffordd dderbyniol?
- Ym mha ffordd mae'r Afon Arswydus fel ffordd?
- Ym mha ffordd mae'r Fferi Ffawd fel bws?
- Mae'r Torrwr Coed yn cadw golwg ar Hugan Fach Goch. At ba oedolion y gallwch chi droi am gymorth?
- Beth ddylai ddigwydd i bob un o'r cymeriadau yn y golygfeydd?

Adnoddau Technegol

Nid oes angen unrhyw adnoddau technegol penodol ar gyfer y sgriptiau. Ond os byddwch yn penderfynu bod y plant yn recordio eu dramâu, yna gallai'r adnoddau canlynol fod yn ddefnyddiol:

- Rhaglen am ddim yw Audacity ar gyfer recordio a golygu ffeiliau sain. Mae angen rhai sgiliau technegol ond mae'r rhain o fewn gallu nifer o ddisgyblion hynaf Cyfnod Allweddol 2. Byddai'n syniad da gofyn am gymorth technegol i osod y rhaglen ar gyfrifiaduron yr ysgol.
- Mae'r wefan ganlynol yn darparu ffeiliau effeithiau sain digidol am ddim. Mae nifer ohonynt o dan Drwydded reative Commons. Byddai'n well i oedolyn cyfrifol lawrlwytho'r ffeiliau ar ran dysgwyr ifanc. **http://www.freesfx.co.uk.**

SGRIPTIAU DRAMA CYFNOD ALLWEDDOL 2

Sgript 1

Y Tair Cwningen

Lleoliad
Mewn cwt cwningen fawr a libart cwningen yng ngardd tŷ rhywle yng Nghymru. Mae tair cwningen yn byw yn y cwt. Mae bachgen tua deg oed yn berchen arnynt.

Cymeriadau
Llipryn: Cwningen wen gyda chlustiau llipa hir iawn sydd bob amser yn mynd dros ei llygaid nes ei bod yn methu â gweld. Nid hi yw'r gwningen fwyaf clyfar yn y cwt.

Taran: Cwningen frown gyda thraed ôl mawr y mae'n eu defnyddio i daro'r ddaear a gwneud sŵn mawr. Mae'n gallu bod yn flin ond mae'n gallu bod yn glyfar iawn hefyd.

Llon: Cwningen ddu sy'n siarad yn gyflym iawn ac fel arfer yn fywiog ac yn hapus.

Mae'r ddrama'n dechrau yn y bore. Yn y cefndir clywir synau'r bore. Pe bai hon yn ardd mewn dinas, mae'n bosibl y clywid sŵn ceir a thraffig. Pe bai yn y wlad, mae'n bosibl y clywid sŵn adar yn canu. Penderfynwch chi lle mae'r ardd... Mae Taran, un o'r cwningod, allan o'r cwt yn barod ac yn eistedd yn y libart.

Llipryn: (Mae'n hopian yn araf o'r cwt i'r libart, yn ymestyn ac yn dylyfu gên). Ydi hi'n fore eto?

Taran: Wrth gwrs ei bod hi'n fore. Mae dy glustiau llipa wedi syrthio dros dy lygaid eto. Does ryfedd na fedri di weld. (gweiddi'n flin) YSGWYD DY BEN!

Llipryn: (Ysgwyd ei ben) o dyna welliant. Rwy'n gallu gweld nawr. Rwyt ti'n glyfar Taran. Diolch.

Taran: (Gwneud sŵn twt-twtian a sibrwd wrtho'i hun) Mewn difrif, rwy'n anobeithio weithiau...
(Mae Llon yn hopian allan o'r cwt, mae'n edrych o'i chwmpas ac yn blincio yn haul y bore.)

Llon: (Yn siarad yn gyflym iawn ac yn gyffrous) Bore da Llipryn, bore da Taran. Am fore braf. Wnaethoch chi gysgu'n dda neithiwr? Fe wnes i. Fe gysgais i'n dda iawn. Cefais freuddwydion braf am foron a chaeau o letys a choesau seleri. A breuddwydion am ddŵr glân, croyw i'w yfed. O! Roedd yn hyfryd, a breuddwydiais am ...

Taran: (Yn torri ar draws Llon yn anghwrtais) Wel braf iawn rwy'n siŵr. Fydda i byth yn breuddwydio. Wela i ddim pwrpas breuddwydio. Mae gennym ni ddigon i boeni amdano yma yn y cwt yma.

Llipryn: Breuddwydio ydw i? Alla i weld dim ond fe alla i eich clywed chi.

Llon a Taran: (Mae'r ddau'n gweiddi gyda'i gilydd) YSGWYD DY BEN!

Llipryn: O! Dyna welliant. Diolch.

Llon: Beth wyt ti'n feddwl Taran wrth ddweud, "Bod gennym ddigon i boeni amdano"?

Taran: Wel edrych o dy gwmpas. Ble mae'r dŵr glân croyw yna yr oeddet ti'n breuddwydio amdano?

Llon: Wel, mae yna ddŵr draw yn y fan acw yn y bowlen ddŵr.

Taran: Ond mae'n frown!

Llon: Ac mae yna fresych yn y gornel draw fan acw.

Taran: Oes, ac mae'r bresych yn frown hefyd!

Llipryn: Rwy'n hoffi bwyd brown. Mae bisgedi'n frown. Mae bisgedi'n neis. O! Mae wedi mynd yn dywyll eto.

Llon a Taran: (Mae'r ddwy gwningen yn gweiddi gyda'i gilydd) YSGWYD DY BEN!

Llipryn: O! Diolch. Rydych chi'n garedig.

SGRIPTIAU DRAMA CYFNOD ALLWEDDOL 2

Llon: Buasai'n dda gen i pe bai ein perchennog yn fwy caredig ac yn gofalu'n well amdanom ni. O! Edrychwch , mae'n dod nawr!

(Mae'r tair cwningen yn troi ac yn edrych i'r un cyfeiriad tuag at y tŷ. Mae'r bachgen sy'n berchen ar y cwningod yn dod allan o'r tŷ. Mae pob un yn troi eu pennau'n araf i'r un cyfeiriad ac ar yr un pryd wrth iddynt ddilyn y bachgen.)

Llon: (Yn siomedig) O! Dydi o ddim yn dod y ffordd yma o gwbl. Mae'n edrych yn debyg ei fod yn nôl ei feic i fynd i'r ysgol.

Llipryn: Gwna rywbeth Taran.

Taran: Iawn, fe wna i daro'r ddaear i dynnu ei sylw. (Mae Taran yn taro ei draed mawr i wneud sŵn curo uchel).

Llon: O! Mae'n gweithio, mae'n edrych arnom ni. A dyna'i fam hefyd. Mae hi'n edrych arnom ni hefyd).

Llipryn: Beth am redeg i fyny ac i lawr i dynnu mwy o sylw.

(Mae'r tair cwningen yn rhedeg yn ôl ac ymlaen. Mae Taran yn gwneud sŵn curo eto. Yn araf mae'r sŵn yn stopio. Yna mae eiliadau o dawelwch)

Llon: (Yn siomedig) Mae o wedi rhoi'r gorau i edrych arnom ni.

Llipryn: Mae'n mynd ar ei feic.

Taran: Mae'n edrych yn debyg na chawn ni unrhyw fwyd na dŵr ffres i frecwast heddiw.

Llipryn: O wel, fe wna i fwyta'r bwyd brown.

Llon: Ac mae gen i syched mawr, fy fydd yn rhaid i mi yfed y dŵr brown.

Taran: (Yn gyffrous ac yn gweiddi'n sydyn) EDRYCHWCH!

(Mae'r cwningod yn edrych i'r un cyfeiriad tuag at y tŷ)

Llipryn: Edrychwch. Mae gwraig yn dod allan o'r cwt mawr lle mae'r bobl yn byw.

Taran: Tŷ ydi'r enw arno fo a'i fam yw honna.

Llipryn: Beth mae'n wneud?

Llon : Mae'n ysgwyd ei bys arno ac yn siarad yn uchel efo fo. Mae'n pwyntio'r ffordd yma. Dydi hi ddim yn edrych yn hapus iawn, nac ydi?

Taran: Nac ydi, ac mae'n rhoi ei feic i lawr ac yn mynd yn ôl i'r tŷ.

Llon : Mae o'n dod allan o'r tŷ nawr. Mae'n dal potel fawr o ddŵr ac mae ganddo fwyd gwyrdd ffres.

Taran: Mae'n edrych yn debyg y cawn ni frecwast wedi'r cyfan.

Llon : Diolch i'w fam.

Llipryn: Pam ei bod hi wedi mynd yn dywyll eto?

Taran: Ddywedwn ni wrtho Llon ?

Llon : Well i ni wneud, neu chaiff o ddim brecwast.

Taran: Iawn ta, ar ôl tri... 1,2, 3..

Llon a Taran: (Mae'r ddau'n gweiddi gyda'i gilydd) YSGWYD DY BEN!

Llipryn: (Yn gwenu) O! Diolch. Rydych chi'n garedig.

-DIWEDD-

SGRIPTIAU DRAMA CYFNOD ALLWEDDOL 2

Sgript 2

Eira Wen a'r Saith Ddylech-Chi-Ddim

Lleoliad
Ar stryd ger ysgol gynradd rhywle yng Nghymru. Mae'n fore ac mae pobl yn teithio i'r ysgol.

Cymeriadau
Eira Wen: Gwraig lolipop yr ysgol ac adroddwraig y ddrama hon
Y Saith Ddylech-Chi-Ddim, sy'n blant rhwng naw ac un ar ddeg oed. Gallen nhw fod yn fechgyn neu'n ferched, hyd yn oed os yw'r sgript yn cyfeirio atynt fel 'fo' neu 'hi'. Mae pob un yn ymddangos mewn gwahanol olygfeydd. Dyma'r plant: Rhys Brys, Puw Pigwr, Twm Twrw, Gari Gwm, Gwil Gwth, Llew Llanast, Dai Dwl. Mae cymeriadau eraill hefyd yn ymddangos yn y Golygfeydd.

Golygfa 1: Stryd ger yr ysgol.

Rhys Brys: Disgybl ar sglefrfwrdd

Sam: Disgybl yn cerdded i'r ysgol.

Jo: Ffrind Sam, Maen nhw'n cerdded i'r ysgol gyda'i gilydd.

Golygfa 2: Ciw bws tua milltir i ffwrdd o'r ysgol.

Gwil Gwth: Disgybl yn teithio i'r ysgol ar fws.

Mr Jones: Hen ŵr ar flaen ciw y bws.

Mrs Bowen: Gwraig y tu ôl i Mr Jones yn y ciw. Pobl eraill yn y ciw.

Golygfa 3: Tu mewn i fws cyhoeddus sy'n teithio heibio i'r ysgol.

Twm Twrw: Disgybl yn teithio i'r ysgol ar y bws ac yn gwisgo clustffonau.

Terri: Disgybl yn teithio i'r ysgol ar fws.

Chris: Ffrind Terri. Maen nhw'n eistedd gyda'i gilydd y tu ôl i Twm Twrw.

Golygfa 4: Y tu mewn i'r un bws (golygfa heb sain i'w meimio)

Gari Gwm: Disgybl ar y bws yn teithio i'r ysgol.

Golygfa 5: Y tu allan i'r ysgol mae Llew Llanast ac Eira Wen yn ymddangos yn yr un olygfa

Eira Wen: Y wraig lolipop.

Llew Llanast: Disgybl yn yr ysgol.

Golygfa 6: Y tu allan i'r ysgol.

Eira Wen: Y wraig lolipop.

Dai Dwl: Disgybl yn yr ysgol.

Golygfa 7. Y ffordd gyferbyn â'r ysgol (golygfa heb sain i'w meimio)

Robin: Disgybl yn cerdded i'r ysgol.

Puw Pigwr: Disgybl yn yr ysgol.

SGRIPTIAU DRAMA CYFNOD ALLWEDDOL 2

Mae'r ddrama'n dechrau ar y palmant y tu allan i ysgol gynradd rhywle yng Nghymru. Mae'n gynnar y bore wrth i ddisgyblion ddechrau cyrraedd yr ysgol.

Cyflwyniad - Y stryd o flaen yr ysgol

Eira Wen: Helo. Fy enw i yw Eira Wen. Wel, Mrs Wen, mewn gwirionedd. Mae'r plant yn fy ngalw'n Eira Wen oherwydd fy nghôt wen, a fy ngwallt gwyn! Goruchwylwraig croesfan yr ysgol ydw i ond caf fy ngalw'n wraig lolipop oherwydd yr arwydd sydd gen i sy'n atal y traffig. Rwy'n byw drws nesaf i'r ysgol felly rwy'n gweld a chlywed llawer iawn. Rwy'n cadw fy nghôt y tu ôl i fy nrws ffrynt a wyddoch chi lle bydda i'n cadw fy lolipop? Y tu ôl i'r soffa! Beth bynnag, sôn oeddwn i am y plant...Mae'r rhan fwyaf o'r plant sy'n teithio i'r ysgol yn dda iawn ac yn ymddwyn yn dda iawn ond mae angen dysgu un neu ddau o bethau ar rai ohonynt. Er enghraifft, yn y fan acw mae rhywun y bydda i'n ei alw'n Rhys Brys. Mae Rhys Brys bod amser ar frys...

Golygfa 1 – Stryd ger yr ysgol.

(Mae'r olygfa'n newid i ran arall o'r stryd. Mae dau ddisgybl yn cerdded yn dawel gan sgwrsio.)

Sam: Wnest ti wylio'r teledu neithiwr? Doedd na ddim llawer arni, nac oedd?

Jo: Roedd o ymlaen yn y cefndir ond doeddwn i ddim yn ei wylio.

(Yn sydyn, mae Rhys Brys yn mynd ar frys ar ei sglefrfwrdd y tu ôl i'r disgyblion.)

Rhys Brys: (Yn gweiddi) Hei! Allan o'r ffordd, y malwod! Rydych chi yn fy ffordd.

Sam: A ddylet ti ddim mynd mor gyflym ar y sglefrfwrdd yna, fe wnei di frifo rhywun.

Rhys Brys: Dim ots gen i am hynny. Arnyn nhw fydd y bai am fod yn y ffordd.
(Mae'r disgyblion yn ceisio symud o ffordd Rhys Brys ond mae'n rhy hwyr ac mae Rhys Brys yn taro yn eu herbyn.)

Jo: Aw! Roedd hynna'n brifo.

Sam: Ac rwyt ti wedi fy maeddu i gyd..

Rhys Brys: (Yn codi'n ôl ar ei sglefrfwrdd) Mae'n ddrwg gen i, ond fe wnes i eich rhybuddio. Rhaid i mi fynd! (I ffwrdd â Rhys Brys ar ei sglefrfwrdd.)

(Awn yn ôl at Eira Wen sydd wedi gweld hyn i gyd)

Eira Wen: Ydych chi'n gweld? Mae o bob amser ar frys ac yn rhoi pobl eraill mewn perygl. Beth ydych chi'n feddwl o Rhys Brys? Rwy'n gwybod beth ydw i'n ei feddwl. Edrychwch fan acw, ym mhen draw'r ffordd tua milltir i ffwrdd. Mae gen i lygaid craff iawn wyddoch chi. I lawr wrth y safle bysiau.

Golygfa 2 - Ciw bws tua milltir i ffwrdd o'r ysgol.

(Mae'r olygfa'n newid i ben draw'r ffordd lle mae safle bysiau. Mae pobl mewn ciw yn disgwyl am y bws. Mae rhai'n sgwrsio. Mae rhai'n disgwyl yn dawel. Mae un neu ddau'n darllen llyfr neu bapur. Mae Gwil Gwth yng nghefn y ciw.)

Mr Jones: (yn siarad â'r person y tu ôl iddo) O! Dyma'r bws yn dod nawr. Rwy'n falch fy mod i wedi dod yma'n gynnar ac mai fi yw'r cyntaf yn y ciw. Efallai y caf i sedd. Mae bob amser yn brysur, on'd ydi?

Mrs Bowen: Wn i. Fe ddylen nhw drefnu bod mwy o fysiau yn y bore.

(Mae'r bws yn anelu am y safle bysiau, yn stopio ac mae'r drysau'n agor. Mae'r bobl yn y ciw'n gwneud eu hunain yn barod i fynd ar y bws. Wrth i'r drws agor, mae Gwil Gwth yn rhedeg o gefn y ciw ac yn neidio ar y bws o flaen Mr Jones.)

Mr Jones: Y gwalch bach drwg! Welsoch chi hynna?

Mrs Bowen: Do. Peidiwch â phoeni, rwy'n gwybod i ba ysgol mae'n mynd. Fe gaf i air â'r pennaeth.

Mr Jones:(Ei lais ychydig yn drist) Peidiwch â phoeni. Fydda i ddim gwaeth. Mae'n resyn ei fod mor ddigywilydd yn gwthio i'r blaen fel yna.

(Awn yn ôl at Eira Wen sydd wedi gweld hyn i gyd)

Eira Wen: Wel, roedd hynna'n ddigywilydd iawn, on'd oedd? Meddyliwch, gwthio o flaen rhywun sydd wedi gwneud ymdrech arbennig i gyrraedd yn gynnar. Ydych chi'n meddwl y dylai Mrs Bowen ddweud wrth y pennaeth? A thybed beth fyddai'r pennaeth yn ei ddweud pe bai'n gwybod? Beth am weld beth arall sy'n digwydd ar y bws. Wnes i ddweud wrthych chi bod gen i lygaid craff? Fe alla i weld llawer o bethau na all y rhan fwyaf o bobl eu gweld. Fe alla i weld rhywun o'r enw Twm Twrw yng nghefn y bws. Mae Twm Twrw fel hyn bob bore fwy neu lai...

Golygfa 3 - Tu mewn i fws cyhoeddus sy'n teithio heibio i'r ysgol

(Mae'r olygfa'n newid i du mewn y bws. Mae'r holl bobl yn y ciw ar y bws gan gynnwys Mr Jones, Mrs Bowen a Gwil Gwth. Yn ffodus, mae pawb wed llwyddo i gael sedd. Yng nghefn y bws mae Twm Twrw yn eistedd. Mae Twm Twrw yn gwisgo clustffonau ac yn gwrando ar chwaraewr Mp3. Mae Twm Twrw yn canu'n uchel gyda'r gerddoriaeth. Mae dau ddisgybl, Terri a Chris yn eistedd y tu ôl i Twm Twrw.)

Twm Twrw: (Yn canu'n uchel - penderfynwch chi pa gân!) La, La, La...

Terri: (Yn sgwrsio efo Chris ac yn pwyntio at Twm Twrw o'u blaenau). Beth fyddet ti'n ei wneud pe baet ti'n clywed y sŵn yma ar X-Factor?

Chris: Yr unig reswm y buasai'n cael mynd ar X-Factor fyddai i wneud i bawb chwerthin.

Terri: Mewn difrif, pwy mae'n feddwl ydi o? Buasai'n dda gen i pe bawn i'n cael dweud rhywbeth wrtho i wneud iddo dewi, ond fiw i mi.

Chris: Wel, os na wnei di, fe wna i. (Mae Chris yn gwyro ymlaen ac yn tapio Twm Twrw ar ei ysgwydd)

Noisy: (Yn cael braw ac yn neidio wrth i Chris dapio ei ysgwydd. Mae'n troi i'w wynebu) Beth wyt ti eisiau?

Chris: Mae'n ddrwg gei i darfu arnat ti. Dim ond eisiau dweud oeddwn i mai dyna'r canu mwyaf swynol imi ei glywed erioed. Rwy'n meddwl bod pawb ar y bws wedi ei fwynhau. Ddylet ti fynd ar X-Factor.

Twm Twrw: Tynnu fy nghoes i wyt ti?

Chris: Nage siŵr. Pam dylwn i? Mae'n amlwg dy fod ti'n meddwl dy fod ti'n dda neu fyddet ti ddim yn gwneud cymaint o sŵn. Beth bynnag, rhaid i mi fynd. Hwn ydi ein stop ni. Edrych ymlaen at gân fory! Tyrd, Terri.

(Mae Chris a Terri yn codi ac yn cerdded i flaen y bws i fynd oddi arno. Mae llawer o bobl ar y bws yn chwerthin, mae Twm Twrw yn edrych yn ddryslyd.)

(Awn yn ôl at Eira Wen sydd wedi gweld hyn i gyd)

Eira Wen: Roedd Chris yn ddewr iawn, on'd oedd? Dydw i ddim yn siŵr y byddwn i wedi bod mor ddewr. Wnaeth o'r peth iawn ydych chi'n meddwl? Beth ydych chi'n ei feddwl o Twm Twrw? O! Arhoswch funud, beth am edrych unwaith eto ar y bws yna. Ie, dyna Gari Gwm.

Golygfa 4 - Y tu mewn i'r un bws (golygfa heb sain i'w meimio)

(Yn yr olygfa hon awn yn ôl i mewn i'r bws. Does neb yn siarad yn yr olygfa hon, felly bydd yn rhaid i'r actor sicrhau bod pawb yn gallu gweld beth sy'n digwydd yn glir iawn. Gallai Eira Wen hefyd adrodd beth sy'n digwydd yn yr olygfa gan ddefnyddio'r disgrifiad canlynol: Yn eistedd ar y bws mae Gari Gwm. Mae Gari Gwm yn cnoi darn mawr o gwm cnoi ac yn edrych allan o'r ffenestr. Ar ôl ychydig o eiliadau, mae Gari Gwm yn tynnu'r gwm cnoi o'i geg/cheg, yn edrych o gwmpas ac yn ei lynu o dan ei sedd. Mae rhai o'r bobl eraill ar y bws yn gweld hyn).

(Awn yn ôl at Eira Wen sydd wedi gweld hyn i gyd)

Eira Wen: Ddim yn neis iawn, nac oedd? Dydi o ddim braf cael gwm cnoi ar eich dillad chwaith. Wyddoch chi fod gan Gari Gwm ffrind da? Llew Llanast yw hwnnw ac mae Llew Llanast yn dod y ffordd yma nawr.

SGRIPTIAU DRAMA CYFNOD ALLWEDDOL 2

Golygfa 5 – Y tu allan i'r ysgol.

(Mae Llew Llanast ac Eira Wen yn yr olygfa hon)

Eira Wen: Helo, sut wyt ti heddiw? Llwglyd?

Llew Llanast: (Mae'n tynnu'r papur oddi ar far Snickers) Ychydig. (Mae'n brathu'r bar). Rwy'n hoffi Snickers. (Mae'n taflu'r papur ar y llawr)

Eira Wen: Mae'n braf gweld dy fod yn hoffi Snickers ond dwyt ti ddim yn meddwl y dylet ti godi'r papur oedd amdano? Gan mai dy bapur di ydi o.

Llew Llanast: (Yn cytuno, ond yn gyndyn o wneud hynny) Am wn i. (Mae'n plygu ac yn codi'r papur ac yna cerdded ymaith)

Eira Wen: (Yn galw arno) Da iawn. Paid ag anghofio ei roi mewn bin.

Llew Llanast: (Yn galw'n ôl) Iawn. Iawn. Rwy'n gwybod!

Eira Wen: Llew Llanast fydda i'n ei alw am fod yn gollwng sbwriel ac yn gwneud llanast. Rhaid i mi ofyn iddo godi ei sbwriel bron bob bore. Mae gan Llew Llanast ffrind da hefyd. Dai Dwl yw hwnnw. Esgusodwch fi, rhaid i mi frysio i fynd i helpu plant i groesi'r ffordd.

Golygfa 6 – Y tu allan i'r ysgol.

(Dai Dwl ac Eira Wen sydd yn yr olygfa hon. Mae plant eraill sy'n aros i groesi'r ffordd yn yr olygfa hon. Mae Eira Wen un ochr i'r ffordd a'r plant yr ochr arall. Mae Dai Dwl yn aros gyda'r plant eraill)

Eira Wen: Hmm, mae yna lawer o draffig bore yma. Mae rhai o'r ceir yn mynd yn rhy gyflym yn fy marn i. (Yn gweiddi ar draws y ffordd). Arhoswch yn y fan yna, blant. Fe wna i stopio'r traffig mewn munud.

Dai Dwl: Dewch Eira Wen. Gadewch i ni groesi!

Eira Wen: (Yn gweiddi ar draws y ffordd) Arhoswch yn y fan yna, blant. Fe wna i stopio'r traffig mewn munud.

Dai Dwl: Dydw i ddim am aros mwy!

(Mae Dai Dwl yn rhedeg ar draws y ffordd. Mae ceir yn canu eu cyrn ar Dai Dwl ac yn gorfod brecio'n sydyn. Mae Dai Dwl yn lwcus nad yw wedi ei daro)

Eira Wen: Doedd hynna ddim yn glyfar iawn, nac oedd?

Dai Dwl: Sori! (Mae'n rhedeg i'r ysgol)

Eira Wen: (Mae'n camu i'r ffordd ac yn stopio'r traffig. Mae'r holl blant eraill yn croesi'n ddiogel) Meddyliwch, fe beryglodd ei fywyd i arbed ychydig o eiliadau. Does ryfedd mod i'n ei alw'n Dai Dwl! Does gan Dai Dwl ddim llawer o synnwyr cyffredin ond o leiaf nid yw'n peri gofid i bobl. Yn wahanol i Puw Pigwr ar draws y ffordd yn y fan acw ...

Golygfa 7 - Y ffordd gyferbyn â'r ysgol (golygfa heb sain i'w meimio)

(Does neb yn siarad yn yr olygfa hon sydd ar y ffordd gyferbyn ag Eira Wen. Mae dau ddisgybl ynddi, Robin a Puw Pigwr. Gallai Eira Wen hefyd adrodd y stori gan ddefnyddio'r disgrifiad canlynol: Mae Robin yn cerdded yn dawel. Mae Puw Pigwr yn pwyso yn erbyn wal. Wrth i Robin gerdded heibio, mae Puw Pigwr yn estyn ei goes allan ac yn baglu Robin. Mae Puw Pigwr yn chwerthin ac yn cerdded ymaith. Mae Robin yn codi ac yn cerdded ymaith, â golwg boenus arno a heb fod yn siŵr pam y digwyddodd.)

Eira Wen: Rydych chi newydd weld un o'r bobl rwy'n ei hoffi leiaf. Puw Pigwr oedd hwnna, mae o bob amser yn pigo ar rywun arall. Beth ydych chi'n ei feddwl o Puw Pigwr? Well i mi beidio â dweud beth rwy'n ei feddwl. Wel, dyna ni. Diolch am rannu fy myd am ychydig o funudau. Diddorol on'd ydi? Ac rydych chi wedi gweld rhai o'r pethau sy'n gallu digwydd wrth i blant deithio i'r ysgol. Ydi o fel eich byd chi? Fe adawaf i chi feddwl am hynny am nawr ond esgusodwch chi. Rhaid i mi fynd i helpu mwy o blant i groesi'r ffordd. Hwyl!

- DIWEDD –

SGRIPTIAU DRAMA CYFNOD ALLWEDDOL 2

Sgript 3

Hugan Fach Goch

Lleoliad
Golygfa o goedwig dywyll yng Nghymru nid mor bell yn ôl â hynny...

Cymeriadau
Hugan Fach Goch: Merch tua deg oed sy'n byw yn y goedwig.
Mrs Hugan: Mam Hugan Fach Goch
Torrwr Coed: Y torrwr coed sy'n helpu i gadw trefn ar bethau yn y goedwig
Blaidd Mawr Cas: Blaidd, credwch neu beidio...
Y Tri Mochyn Bach: Mae tri ohonynt...
Peilot y Fferi: Peilot y fferi sy'n croesi'r Afon Arswydus.
Bachgen Bach Toes: Mae wedi ei wneud o sinsir yn ôl y sôn.

Golygfa 1: Bwthyn Hugan Fach Goch yn y goedwig.

(Mae'r ddrama'n dechrau yng nghegin tŷ Hugan Fach Goch yn y goedwig.)

Mrs Hugan: (Yn gweiddi) Hugan Fach Goch, mae dy ginio'n barod!

Hugan Fach Goch: (Yn gweiddi o'r tu allan) Rwy'n dod!

(Mae Hugan Fach Goch yn cerdded i mewn i'r gegin)

Mrs Hugan: Dyma ti, cariad. Dy hoff ginio. Brechdanau banana, hufen salad a menyn cnau mwnci. Rwyt ti'n hoffi'r cyfuniad rhyfeddaf o fwyd. Yn union fel dy dad ... Beth bynnag, wyt ti'n barod am y daith?

Hugan Fach Goch: Ydw, wrth gwrs, mam. Rwy'n mynd ar y daith hon bob dydd. Dydi hi ddim mor beryglus â hynny, nac ydi? Oni bai am y bleiddiaid, yr Afon Arswydus a'r Fferi Ffawd, hynny yw. Ond fe fydda i'n iawn, peidiwch â phoeni.

Mrs Hugan: Wel cymer di ofal. Rwyf wedi gwario ffortiwn ar dy wisg ysgol newydd di a dydi'r hwdis coch yma ddim yn rhad. Rwyt ti'n ferch fawr nawr a dydw i ddim yn meddwl y byddai'n ffitio neb arall yn dy ddosbarth. Byddai'n resyn iddi gael ei difetha.

Hugan Fach Goch: Diolch mam. Braf gwybod dy fod yn meddwl amdana i.

Mrs Hugan: A phaid ag anghofio rhoi'r bocs o fisgedi blas nionyn picl i nain. Rwy i wedi eu gwneud nhw'n arbennig iddi. Wel wir, mae'r teulu i gyd yn hoffi'r bwydydd rhyfeddaf.

Mrs Hugan: Wna i ddim anghofio mam. Wedi'r cyfan, nain yw pennaeth Ysgol y Goedwig ac mae hi bob amser yn fy atgoffa - o bopeth!

Mrs Hugan: Ffwrdd a thi rŵan. Rwy eisiau gwylio rhaglenni'r bore ar y teledu. Bydd yn ferch dda!

Hugan Fach Goch: Hwyl mam. Wela i chi amser te!
(Mae Hugan Fach Goch yn mynd trwy'r drws ac mae Mrs Hugan yn rhoi'r teledu ymlaen.)

Golygfa 2: Yn y goedwig.

(Mae Hugan Fach Goch yn cerdded trwy'r goedwig yn siglo ei bag o'r naill ochr i'r llall. Mae synau'r goedwig i'w clywed.)

Hugan Fach Goch: Mae hi bob amser yn dywyll ac yn unig iawn yn y goedwig. Mae'r tywyllwch, y synau rhyfedd a'r pethau allai fod yn cuddio y tu ôl i'r coed yn ddigon i godi ofn ar rywun. Ond rwy wedi arfer â'r goedwig. (Yn sydyn) Beth yw hwnna? O! Dim ond y Blaidd Mawr Cas.

Blaidd Mawr Cas: Hugan Fach Goch. I ble wyt ti'n mynd?

Hugan Fach Goch: I ble wyt ti'n feddwl? Rwyt ti'n gofyn yr un cwestiwn i mi bob dydd. Rwy'n dechrau diflasu.

Blaidd Mawr Cas: Diflasu? Wir? Rwy i fod i godi ofn arnat ti. Edrych. (Mae'n chwyrnu ac yn gwneud wyneb sy'n codi ofn ar rywun.)

Hugan Fach Goch: (Dydi o ddim yn codi ofn ar Hugan Fach Goch ac mae'n cymryd arni ei bod yn dylyfu gên). Rwy wedi gweld plu eira sy'n codi mwy o ofn na thi. Dylet ti drïo'n galetach.

Blaidd Mawr Cas: Wel beth am weld os yw hyn yn codi mwy o ofn arnat ti! (Mae'n cydio ym mag Hugan Fach Goch) Ha! Mae dy frechdanau di gen i nawr. Beth am hynna!

Hugan Fach Goch: (Mae Hugan Fach Goch yn cymryd arni ei bod yn ddigalon) O na! Nid fy mrechdanau banana, hufen salad a menyn cnau mwnci!

Blaidd Mawr Cas: Ia, dy frechdanau banana, hufen salad a menyn cnau mwnci ! Aros funud. Brechdanau banana, hufen salad a menyn cnau mwnci ddywedaist ti?
Hugan Fach Goch: Ia, fy ffefryn.
Blaidd Mawr Cas: Wyt ti'n siŵr? Maen nhw'n swnio'n afiach.

Hugan Fach Goch: Dyna'r brechdanau gorau yn y byd.

Blaidd Mawr Cas: Wel, os felly... (Mae'n cymryd y brechdanau ac yn eu bwyta i gyd yn sydyn gan wneud synau bwyta annymunol)
Hugan Fach Goch: Beth sydd Mistar Blaidd? Dydych chi ddim yn edrych yn dda iawn.

Blaidd Mawr Cas: Dydw i ddim yn teimlo'n dda iawn. A dweud y gwir, rwy'n meddwl fy mod am fod yn sâl. O na, rwyf yn sâl! (Mae'n rhuthro ymaith gan wneud synau annymunol)

(Mae'r Torrwr Coed yn camu o du cefn i goeden)

Hugan Fach Goch: Helo Mr Torrwr Coed.

Torrwr Coed: Helo Hugan Fach Goch. Roedd hynna'n glyfar iawn. Fe wnest ti ei dwyllo'n dda. Dyma'r brechdanau iawn y gofynnaist ti i mi ddod i ti. Fe af i weld os yw'r Blaidd Mawr Cas yn iawn. Cigysydd ydi o wyddost ti, a dydi bwyd llysieuol ddim yn addas iddo. Wela i di wedyn. (Mae'r Torrwr Coed yn cerdded ar ôl y Blaidd Mawr Cas)

Hugan Fach Goch: Hmm, brechdanau cyw iâr. Mwy blasus o lawer. Mistar Blaidd druan...

Golygfa 3 Ar Lan yr Afon Arswydus

(Mae Hugan Fach Goch wedi dod at lan yr Afon Arswydus. Mae'n afon wyllt gyda dŵr gwyn ac nid yw'n ddiogel iawn. Mae rhai'n dweud bod crocodeilod ynddi ond allai hynny ddim yn bod yn wir, na allai?)

Hugan Fach Goch: Hmm, sut ydw i am groesi hon heddiw? Mae'n debyg y byddai'n well i mi aros am y fferi. Dyna'r unig ffordd ddiogel i groesi. O edrychwch, dyna'r Tri Mochyn Bach. (Mae Hugan Fach Goch yn galw arnynt) Helo Foch Bach!

Y Tri Mochyn Bach: Helo Hugan Fach Goch!

Hugan Fach Goch: Beth sy'n bod? Mae golwg wlyb iawn arnoch chi. Ydych chi wedi bod yn ceisio croesi'r Afon Arswydus?

Mochyn Bach 1: Do, fe adeiladais rafft o wellt ond cyn gynted ag y rhoddais i hi yn y dŵr fe syrthiodd yn ddarnau a syrthiais i'r afon. Bu bron i mi foddi. Yn ffodus roedd Mochyn Bach 2 a Mochyn Bach 3 ar y lan felly roedden nhw'n gallu fy achub i.

Mochyn Bach 2: Ac fe adeiladais rafft o fwd ond cyn gynted ag y rhoddais i hi yn y dŵr fe ddechreuodd doddi a syrthiais i'r afon. Bu bron i mi foddi. Yn ffodus roedd Mochyn Bach 1 a Mochyn Bach 3 ar y lan felly roedden nhw'n gallu fy achub i.

Mochyn Bach 3: Fi yw'r un clyfar. Felly rwy wedi adeiladu rafft o friciau. Bydd yn gryfach na'r ddwy rafft arall

SGRIPTIAU DRAMA CYFNOD ALLWEDDOL 2

Hugan Fach Goch: Wyt ti'n siŵr?

Mochyn Bach 1: O ydi. Mae o mor glyfar.

Mochyn Bach 2: Ydi, mae o'n glyfar. Fe adeiladodd dŷ o friciau i gadw'r Blaidd Mawr Cas allan.

Mochyn Bach 3: Mae hynny'n wir. Rwy'n glyfar iawn. Dewch, foch, ar y rafft o friciau!

Hugan Fach Goch: Dydw i ddim yn meddwl ei fod yn syniad da.

(Mae'r Tri Mochyn Bach yn dringo ar y rafft. Mae llawer o sblasio wrth iddynt wthio'r rafft allan. Yn sydyn, mae'r moch yn gwichian)

Y Tri Mochyn Bach: Help. Help. Rydym ni'n boddi! Mae'r rafft yn rhy drwm. Rydym ni'n mynd i foddi.
(Mae'r Torrwr Coed yn camu allan o du ôl i goeden)

Torrwr Coed: Arhoswch, foch. Daliwch y rhaff yma (Mae'r Torrwr Coed yn taflu rhaff atynt ac yn tynnu'r moch i'r lan)

Hugan Fach Goch: Da iawn Mr Torrwr Coed. Fe wnaethoch chi achub y moch mewn pryd. Fe adawaf chi i ofalu amdanynt gan fod y fferi yma. Wela i chi'n nes ymlaen. Druan o'r moch bach.

Golygfa 4 Ar y Fferi Ffawd

(Mae Hugan Fach Goch yn camu ar y Fferi Ffawd , yr unig ffordd ddiogel i groesi'r Afon Arswydus)

Hugan Fach Goch: Helo Peilot y Fferi. Sut ydych chi?

Peilot y Fferi: Da iawn diolch Hugan Fach Goch. Ydi dy Docyn Fferi gen ti?

Hugan Fach Goch: Wrth gwrs, dyma fo.

Peilot y Fferi: Diolch. Byddai'n braf pe bai pawb yn cofio eu Tocyn Fferi. Rhaid i mi eu gwirio, mae'n rhan o fy swydd.

(Mae'r Bachgen Bach Toes yn camu ar y fferi)

Peilot y Fferi: Esgusoda fi, Fachgen Bach Toes. Ga i weld dy Docyn Fferi?

Bachgen Bach Toes: Na chewch. A wyddoch chi pam? Oherwydd dydi o ddim gen i. Dyna pam. A beth ydych chi'n mynd i wneud? Allwch chi ddim fy nhaflu i ffwrdd oherwydd dyma'r unig ffordd i groesi'r afon

Peilot y Fferi: Wyt ti'n gweld beth ydw i'n feddwl Hugan Fach Goch? Ac mae'n ddigywilydd hefyd. Daliwch eich gafael bawb, mae'r fferi'n gadael. Ac eistedd yn y tu blaen, Fachgen Bach Toes, alla i ddim gweld lle ydw i'n mynd os wyt ti'n sefyll yn fy ffordd.

Hugan Fach Goch: Dydi o ddim yn gwneud pethau'n hawdd i chi, nac ydi. Druan o Beilot y Fferi.



SGRIPTIAU DRAMA CYFNOD ALLWEDDOL 2

Golygfa 5 Yn ysgol y Goedwig

(Mae Hugan Fach Goch wedi cyrraedd yn ddiogel yn Ysgol y Goedwig ac mae y tu allan i swyddfa Nain. Mae Hugan Fach Goch yn dal y bocs o fisgedi blas nionyn picl i Nain, ac mae'n cnocio ar y drws.)

Nain: (Nid Nain yw hi. Mae'n debyg eich bod chi wedi dyfalu. Ia, y Blaidd Mawr Cas ydyw. Mae'n cymryd arno mai Nain ydyw) Tyrd i mewn Hugan Fach Goch.

Hugan Fach Goch: Dyna glyfar, sut oeddet ti'n gwybod mai fi oedd yna?

Nain: Rwyf wedi bod yn dy ddisgwyl di.

Hugan Fach Goch: Nain, am glustiau mawr, am drwyn mawr blewog, a dwylo mawr blewog sydd gennych chi. Dydyn nhw ddim fel rhai Nain o gwbl. Wyt ti'n meddwl mewn difrif dy fod yn mynd i fy nhwyllo i, yn y dillad yna, Blaidd Mawr Cas?

Nain: (Blaidd Mawr Cas go iawn): Iawn, fi sy yma. Rwyt ti wedi fy nal i. Paid ag edrych mor hunanfodlon a chlyfar â thi dy hun. Beth wyt ti'n ei gario?

Hugan Fach Goch: Hoff fisgedi Nain gyda blas nionyn picl arnyn nhw.

Blaidd Mawr Cas: Rho nhw i mi!

Hugan Fach Goch: Iawn. Os wyt ti'n mynnu.

Blaidd Mawr Cas: (Mae'n cydio yn y bisgedi ac yn eu bwyta'n sydyn gan wneud synau bwyta annymunol). O na. Rwy'n teimlo'n sâl eto. Ac rwy'n meddwl mod i'n mynd i fod yn sâl. Yyy! (Mae'n rhuthro allan o'r ystafell)

Hugan Fach Goch: Diolch byth ei fod wedi mynd. Mae'n siŵr fod Nain yn dysgu mewn ystafell ddosbarth. Fe af i ddweud helo. Am daith ddiddorol i'r ysgol. Alla i ddim aros i weld beth fydd yn digwydd ar y ffordd adref heno. (Y tu allan i'r ystafell gallwn glywed sŵn rhywun yn bod yn sâl) Druan o'r Blaidd Mawr Cas.

– DIWEDD –